**CYFARFOD Y CYNGOR** **21ain MAWRTH 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 21ain Chwefror 2018 | - | Rhifau Cofnod 114-130 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 21ain Chwefror 2018 | - | Rhifau Cofnod 51-53 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 7fed Mawrth 2018 | - | Rhifau Cofnod 54-56 |

I gadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 7fed Mawrth 2018 | - | Rhifau Cofnod 117-130 |

**3. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**4. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**5. ROLAU AELODAU:**
**(i) CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**
**(ii) CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Cadarnhau disgrifiadau rôl diwygiedig/newydd ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Is-bwyllgor Asesu Risg fel yr argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg (copïau'n amgaeëdig).

**6. <u>PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – PENDERFYNIADAU TERFYNOL</u>**

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) ar y camau sydd angen eu cymryd i weithredu penderfyniadau Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru mewn perthynas â lwfansau'r Aelodau.

**7. <u>EITEMAU ER GWYBODAETH</u>**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**8. <u>HOLI AC ATEB</u>**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**9. <u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. <u>EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**11. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.